**CYNGOR RHONDDA CYNON TAF BWRDD RHIANTA CORFFORAETHOL**
Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd ddydd Llun, 13 Medi 2021 am 10.00am

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol a oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd C Leyshon (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd G Hopkins | Y Cynghorydd J Rosser |
| Y Cynghorydd E Griffiths | Y Cynghorydd S Rees |
| Y Cynghorydd L Hooper | |

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms C Miles, Cyfreithiwr Gofal Plant
Ms A Lloyd, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau i Blant
Ms C Jones, Pennaeth Materion Mynediad a Chynhwysiant
Ms J Thomas, Rheolwr Cwynion a Sicrhau Ansawdd, Gwasanaethau Cymdeithasol
Mrs J Clark, Pennaeth Diogelu
Ms Z Lancelott, Pennaeth Materion Llesiant a Chydnerthedd y Gymuned
Mr L Lewis, Pennaeth Dros Dro Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc

**Eraill oedd yn bresennol**
Annabel Galt, Fforwm Glasbrint / VfCC

**14 YMDDIHEURIAD**

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol S Rees-Owen. Nododd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol J Rosser y byddai angen iddi adael y cyfarfod yn gynnar oherwydd ei bod yn mynd i angladd.

**15 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

**16 CYDNABYDDIAETH**

Nododd y Bwrdd eu diolch i Ms Anne-Marie Browning am y gefnogaeth a roddwyd i'r Bwrdd a'i gwaith yn y garfan Gwasanaethau i Blant. **PENDERFYNWYD** anfon llythyr o ddiolch at Ms Browning yn dilyn ei hymddeoliad diweddar.

**17 COFNODION**

**PENDERFYNWYD** bod cofnodion cyfarfod blaenorol y Bwrdd yn gywir.

**18 ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETH TROSEDDAU'R IFAINC 2020 - 2021**

Cyfeiriodd Pennaeth Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc Cwm Taf yr Aelodau at ei adroddiad yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am waith Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc Cwm Taf ar gyfer 2020/21. Roedd yr adroddiad gerbron yr Aelodau yn crynhoi'r ymateb i bandemig Covid 19 ac yn cynnwys gwybodaeth am heriau / risgiau posibl i'r gwasanaeth yn y dyfodol.

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaeth drosolwg manwl i'r Aelodau o'r adroddiad yn amlinellu gwaith y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys gwaith partneriaeth. Atgoffwyd yr Aelodau bod y gwasanaeth yn cynnal eu gwaith o ddydd i ddydd o bell ac fe'u hysbyswyd o'r anawsterau a greodd hyn yn y lle cyntaf, wrth i bawb ddod i arfer â'r ffordd newydd o weithio. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod yma, parhaodd staff Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc i gefnogi pobl ifainc a ymddangosodd yn y llysoedd barn (gan gynnwys y Llys Remánd yng Nghaerdydd), a'r rhai a oedd angen oedolyn priodol yng ngorsaf yr heddlu wrth gael eu harestio, neu'r rhai a gytunodd i gael eu cyfweld yn wirfoddol. Parhaodd cyswllt wyneb yn wyneb â phobl ifanc yr aseswyd eu bod yn 'risg uchel' neu'n destun 'goruchwyliaeth a gwyliadwriaeth ddwys' yn ystod y cyfnod yma a sicrhaodd mewnbwn gweithwyr sesiynol profiadol fod cyswllt â'r bobl ifainc yma'n digwydd gyda'r nos ac ar benwythnosau yn ôl yr angen. Ers mis Mai y llynedd, mae Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc wedi parhau i weithio gyda staff sgerbwd o'i swyddfa yn Llys y Gyfraith Merthyr Tudful ac roedd y trefniant yma yn darparu cefnogaeth reoli a chefnogaeth i gymheiriaid amhrisiadwy i'r rhai oedd ei angen fwyaf.

Cafodd yr Aelodau wybod bod gan holl staff Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc yr adnoddau i weithredu'n fwy effeithiol ac mae modd i fwyafrif y staff weld buddion gweithio mewn dull mwy hyblyg. Fodd bynnag, mae Covid wedi creu heriau newydd o ran rheoli risgiau i'r cyhoedd ac i'r plant sy'n hysbys i'n gwasanaeth, ac yn fwy diweddar bu cynnydd sylweddol mewn atgyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau atal. Yn dilyn oedi hir o ganlyniad i Covid, mae Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc bellach wedi cwblhau'r broses o ailstrwythuro'r gwasanaeth er mwyn bodloni gofynion y gwasanaeth yn y dyfodol. Darparwyd manylion y strwythur newydd i'r Aelodau.

Yn y dyfodol, bydd monitro'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru ochr yn ochr â phartneriaid yn greiddiol i effeithiolrwydd y gwasanaeth a'r ffordd o lywodraethu'r gwasanaeth ac yn gwella atebolrwydd am ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu ar draws y bartneriaeth. Dywedwyd bod Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc hefyd yn cydnabod bod angen iddo ddatblygu ffyrdd gwell o gyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth rhwng ymarfer gweithredol ar lawr gwlad a sut mae'n ymwneud â gwaith y Bwrdd Rheoli Troseddwyr, ac aelodau etholedig yn ehangach.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Gwasanaeth am yr adroddiad a'r trosolwg manwl a siaradodd yn gadarnhaol am barhad y cyfathrebu wyneb yn wyneb â phobl ifainc, a hynny mewn amgylchiadau anodd drwy gydol y pandemig.

Manteisiodd yr Is-gadeirydd ar y cyfle i holi am gyflawniad y gwasanaeth mewn perthynas â darparu gwasanaeth i blant sy'n derbyn gofal ac i'r plant a'r bobl ifainc hynny sydd eisoes yn hysbys i'r gwasanaeth.  Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth am y gwaith cydweithredol cadarnhaol gyda phartneriaid a'r gwaith cyson ar draws y Bwrdd i sicrhau'r deilliannau gorau i bobl ifainc. Awgrymodd Pennaeth y gwasanaeth y dylid cyflwyno adroddiad gerbron y Bwrdd yn y dyfodol yn tynnu sylw at nifer y plant sy'n derbyn gofal o fewn y system cyfiawnder ieuenctid a thrafod os oes cydberthynas rhwng y ddau.

Cyfeiriodd un Aelod at y ddarpariaeth CAMHS a drafodwyd yn ddiweddar gyda'r Uwch Reolwyr Iechyd a dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth mai ei fwriad oedd darparu mwy o gefnogaeth i staff sy'n delio â phobl ifainc â materion llesiant mwy cymhleth, a dywedodd wrth yr Aelodau fod y gwaith yn parhau er mwyn cryfhau'r cysylltiad â seicoleg, datblygiad niwro a darpariaeth lleferydd ac iaith. Holodd yr Aelodau a allai'r Bwrdd gynorthwyo i sicrhau bod y gwasanaeth yma'n cael ei ddarparu a dywedwyd wrthyn nhw fod trefniadau gweithio mwy cadarn yn y maes yma bellach yn llwyddiannus yn dilyn cefnogaeth gan y Bwrdd Rheoli Troseddwyr, er bod pryderon mewn perthynas â'r ddarpariaeth dan sylw wedi bod yn y gorffennol. Cyfeiriodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Blant at drafodaethau mewn perthynas â darpariaeth CAMHS yn ystod y broses graffu.

Gan gyfeirio at ymholiad am oedi o fewn y llysoedd, dywedwyd wrth y Bwrdd nad oedd unrhyw oedi o ran achosion llys a bod y rhain wedi parhau, oherwydd cysylltiadau cryf â'r llysoedd i sicrhau gwasanaeth effeithlon ac amserol.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD**:

1. Cydnabod y newidiadau arfaethedig / posibl yn y System Cyfiawnder Ieuenctid a'r effaith bosibl ar waith Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc.

2. Derbyn adroddiadau pellach maes o law er mwyn bod yn fodlon ar y cynnydd a'r gwelliannau sy'n cael eu gwneud o ganlyniad i ailstrwythuro'r gwasanaeth.

## 19 CYNNIG TAI I BOBL IFAINC SY'N GADAEL GOFAL

Rhannodd y Pennaeth Cymunedau Diogel a Thai Cymunedol dros dro adroddiad â'r Aelodau a oedd yn darparu gwybodaeth am sut mae pobl ifainc 16+ sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal yn cael llety a chefnogaeth i symud ymlaen.

Dysgodd yr Aelodau bod y gwasanaeth wedi llwyddo i benodi swyddog tai penodol i ddarparu un pwynt cyswllt ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal. Bydd y swyddog yn gweithio'n agos gyda'r Garfan 16+ a phobl ifainc sy'n gadael gofal yn gynnar i nodi'r holl opsiynau tai sydd ar gael wrth iddyn nhw ystyried eu hanghenion tai a chymorth. Bydd hyn yn cynnwys llety â chymorth, Tai yn Gyntaf a llety anghenion cyffredinol yn y sector rhentu cymdeithasol a phreifat.

Rhannwyd rhagor o fanylion mewn perthynas â thai cymdeithasol, tai rhent preifat a llety â chymorth, a dywedwyd bod unedau ychwanegol o lety â chymorth yn cael eu hystyried yn rhan o Gynllun Comisiynu Lleol y Grant Cymorth Tai ar hyn o bryd, gan fod anghenion pobl ifainc yn un o'r anghenion amlycaf. Darparwyd crynodeb pellach mewn perthynas â chymorth fel y bo angen, y prosiect Tai yn Gyntaf, llety â chymorth a phrosiect 'Paratoi a Symud Ymlaen' i'r Bwrdd.

Daeth y swyddog i'r casgliad, er bod cryn dipyn o waith wedi'i wneud i fynd i'r afael ag anghenion tai a chymorth uniongyrchol i bobl ifainc sy'n gadael gofal, mae angen gwaith pellach i leihau nifer y bobl ifainc sy'n symud i lety gwely a brecwast ac i archwilio opsiynau tymor hir mwy cynaliadwy o ran cymorth a llety.

Croesawodd y Cadeirydd y rôl a nodwyd gan y prosiect Mercury mewn perthynas â'r swyddog tai ac ailadroddodd eto bwysigrwydd parhau â'r cyswllt

wyneb yn wyneb â'r gwasanaeth er budd y bobl ifainc y mae'n eu gwasanaethu.

Gwnaeth yr Is-gadeirydd sylwadau ar y broses bwysig o symud ymlaen i bobl sy'n gadael gofal a'r angen i sicrhau bod y llety sy'n cael ei ddarparu yn addas at y diben. Croesawodd yr Is-gadeirydd y berthynas waith gadarnhaol gyda landlordiaid cymdeithasol gan obeithio y gellid archwilio hyn ymhellach gyda darparwyr gosod tai eraill.

Roedd yr Aelodau yn falch o ddysgu nad oedd y pandemig wedi cael effaith sylweddol ar yr opsiynau tai sydd ar gael i bobl ifainc gyda llawer o'r prosiectau a ariennir gan y Grant Cymorth Tai yn rhedeg yn ôl yr arfer ac yn derbyn atgyfeiriadau.

Siaradodd Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio a Datblygu y Cyngor am yr anawsterau a ddaeth i'r amlwg o ran derbyniad datblygiadau tai cymdeithasol arfaethedig mewn cymunedau lleol a siaradodd am yr angen am ymgysylltiad cyhoeddus agored i leddfu'r anawsterau sy'n aml yn codi.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD**:

1. Nodi'r wybodaeth oedd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad;

**20 ADRODDIAD CHWARTEROL TROS GYNNAL**

Croesawodd y Bwrdd Ms Davies a rannodd ddiweddariad o'r cynnydd a wnaed gan Tros Gynnal Plant (TGP) Cymru. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod 29 o bobl ifainc wedi manteisio ar gynnig Eiriolaeth yn Seiliedig ar Faterion yn ystod y chwarter cyntaf a dywedwyd bod atgyfeiriadau wedi gostwng wedi hynny, gyda dim ond 6 o bobl yn manteisio ar gynigion y chwarter cyfredol yma. Rhannwyd bod 94 o blant yn gymwys i gael y cynnig yn ystod y cyfnod yma.

O ran y rhai a fanteisiodd ar y cynnig, dim ond 67% a dderbyniodd gynnig gweithredol o fewn 5 diwrnod. Priodolwyd hyn i'r ffaith bod angen asesiadau risg ychwanegol wrth gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod dull symlach o asesu risg bellach yn cael ei ddatblygu i leihau oedi o'r fath yn y dyfodol.

O ran Eiriolaeth yn Seiliedig ar Faterion, dywedwyd bod y gwasanaethau cymdeithasol yn gwneud y nifer uchaf o atgyfeiriadau, a daeth naw atgyfeiriad yn uniongyrchol gan bobl ifainc. Mae eiriolaeth ymweld yn parhau gyda chefnogaeth rithwir.

Yn yr adroddiad, rhannwyd adborth gan bobl ifainc mewn perthynas â'r gwasanaeth eiriolaeth. Roedd yr adborth yn gadarnhaol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am yr adroddiad a siaradodd am bwysigrwydd yr ymgysylltu wyneb yn wyneb trwy'r cynnig gweithredol.

Siaradodd yr Is-gadeirydd am ei bryderon ynghylch nifer y plant sy'n gwrthod y cynnig gweithredol a holodd am y rhesymau posibl dros ei wrthod. Siaradodd swyddogion am yr angen i gryfhau'r cyfathrebu rhwng yr Awdurdod Lleol a'r gwasanaeth, a siaradwyd am y cymhlethdodau sy'n codi'n aml gyda rôl yr eiriolwr a phwy sy'n gallu cynrychioli'r person ifanc.

Siaradodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Blant am y fideo a gynhyrchwyd er budd pobl ifainc i'w cynorthwyo gyda'u dealltwriaeth o eiriolaeth ac awgrymwyd y

dylid rhannu'r fideo eto gydag Aelodau'r Bwrdd.

Holodd yr Aelodau am y gefnogaeth a ddarparwyd a'r deilliannau i'r rhai gafodd eu cynrychioli. Awgrymodd y Cadeirydd y dylai Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Blant weithio'n agos gyda phartneriaid i fynd i'r afael ag unrhyw faterion posibl o ran y cynnig eiriolaeth er budd y bobl ifainc dan sylw.

**PENDERFYNWYD**

1. Nodi'r adroddiad.
2. Derbyn diweddariad mewn perthynas â'r eitem pan fydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Blant yn ei hystyried yn briodol gwneud hynny.

## 21 GWASANAETH TEULUOEDD CYDNERTH

Gyda chymorth cyflwyniad PowerPoint, rhannodd Bennaeth Materion Llesiant a Chydnerthedd y Gymuned fanylion i'r Aelodau am gyflawniad y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth dros y flwyddyn ddiwethaf hyd yma.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod cyfanswm yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd i'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth wedi gostwng dros 24% rhwng 2019/20 a 2020/21 i 1,269. Yn ystod 2020-21 gwelwyd cynnydd mewn atgyfeiriadau gan wasanaethau yn y gymuned a arhosodd mewn cysylltiad uniongyrchol â theuluoedd yn ystod y pandemig. Nododd y Pennaeth Gwasanaeth fod y galw am y gwasanaeth wedi cynyddu'n sylweddol ers hynny gyda'r cyfraddau atgyfeirio misol cyfredol wedi cynyddu 126%.

Hyd at y cyfnod lle gyflwynwyd y cyfyngiadau symud ym mis Mawrth 2020, roedd y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth ar y trywydd iawn i ddilyn tuedd y blynyddoedd blaenorol ac mae tystiolaeth o welliant parhaus o ran y rhai sy'n parhau gyda'r gwasanaeth.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth fod y cyfyngiadau sylweddol a roddwyd ar y gwasanaeth yn ystod 2020/21 wedi cael effaith fawr ar allu'r gwasanaethau i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar deuluoedd ac felly gostyngodd niferoedd y rhai sy'n parhau â'r gwasanaeth i'r lefel isaf yn hanes y gwasanaeth. Cafodd nifer o deuluoedd drafferth gyda chymorth rhithwir a gyfrannodd at y cwymp mewn cyfraddau cadw yn ystod y cam ymyrraeth.

O ran deilliannau ar gyfer pobl sy'n gadael y gwasanaeth, cwblhaodd 92.6% becyn ymyrraeth y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth yn llawn yn 2019/20 a chwblhaodd 94% y pecyn yn 2020/21. Roedd y teuluoedd na gwblhaodd y pecyn angen cymorth ychwanegol i gael mynediad at wasanaethau statudol yn sgil lefelau uwch o angen/risg. O'r teuluoedd hynny a gwblhaodd becyn ymyrraeth y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth yn llawn, cofnododd 95.2% yn 2019/20 a 95.5% yn 2020/21 bod gyda nhw well cydnerthedd.

Mewn perthynas â gwaith y gwasanaeth a'r gostyngiad yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal ers cyflwyno'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth yn 2018 fel model newydd ar gyfer darparu cymorth ymyrraeth gynnar, cofnododd yr Awdurdod Lleol ostyngiad yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal i ddechrau ond gwnaeth hyn gynyddu ychydig y llynedd.

Gorffennodd y Swyddog y cyflwyniad trwy rannu manylion achos, y gwaith

cymorth a wnaed a deilliannau achosion o'r fath.

Gwnaeth Aelodau'r Bwrdd sylwadau ar waith cadarnhaol y gwasanaeth yn ystod amgylchiadau anodd y pandemig Covid a mynegwyd bod y Bwrdd yn diolch i'r holl staff sy'n rhan o'r gwasanaeth.

**PENDERFYNODD** y Bwrdd nodi cynnwys yr adroddiad.

**22 ADRODDIAD MONITRO GWASANAETH ADOLYGU ANNIBYNNOL CYFARWYDDWR CYFADRAN Y GWASANAETHAU CYMUNED A GWASANAETHAU I BLANT**

Cyflwynodd y Pennaeth Diogelu adroddiad i'r Aelodau yn darparu gwybodaeth am gyflawni swyddogaethau'r Swyddog Adolygu Annibynnol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (PDG) yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2021 a 30 Mehefin 2021.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth wrth yr Aelodau am gamgymeriad yn yr adroddiad ger eu bron a dywedodd y byddai fersiwn wedi'i diweddaru o'r adroddiad ar gael yn dilyn y cyfarfod.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod 64 o blant yn derbyn gofal rhwng 01.01.21 a 30.06.21. Mae hynny'n ostyngiad o 11% yn y niferoedd o gymharu â'r un cyfnod adrodd yn 2020. Rhoddwyd mwy o fanylion i'r Aelodau mewn perthynas ag ystod oedran, manylion lleoliad, sefydlogrwydd lleoliad, derbyniadau a rhyddhau a hefyd mabwysiadu.

O ran adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal, cynhaliwyd 918 o gyfarfodydd adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal dros gyfnod o 6 mis gyda deilliannau cyflawniad o 97% ar ddiwedd mis Mehefin 2021. Hysbyswyd yr Aelodau mai dim ond 30 Adolygiad na chynhaliwyd mewn pryd rhwng Ionawr 2021 a Mehefin 2021. Mae hynny wedi aros yn sefydlog ers y cyfnod adrodd diwethaf, ac mae'n gyflawniad sylweddol o ystyried yr amgylchiadau sy'n wynebu'r gwasanaeth. Sicrhawyd yr Aelodau bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau bod adolygiadau a ganslwyd yn cael eu cynnal eto mewn da bryd, a phan nad yw hynny'n bosibl gofynnir am ganiatâd i wneud hynny'n hwyrach gan Reolwr Gwasanaeth neu Bennaeth Gwasanaeth.

Parhaodd y Pennaeth Gwasanaeth trwy roi gwybod i'r Aelodau y codwyd cyfanswm o 13 datrysiad yn ystod y cyfnod adrodd hwn, 2 yn fwy na'r hyn a adroddwyd yn y gorffennol. Mae hyn yn parhau i fod yn ganran isel iawn o ran cyfanswm nifer y cynlluniau Gofal a Chymorth sy'n cael eu hadolygu gan y Swyddogion Adolygu Annibynnol.

**PENDERFYNODD** Aelodau'r Bwrdd nodi cynnwys yr adroddiad.

**23 Trafod cadarnhau'r Penderfyniad isod:-**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**24 GWASANAETHAU CYMDEITHASOL – CWYNION A CHANMOLIAETHAU**

**CHWARTEROL**

Rhoddodd Rheolwr Cwynion, Ymgysylltu a Gwella Gwasanaeth grynodeb i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol o'r trefnau gweithredu ac effeithiolrwydd gweithdrefn cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol rhwng 1 Ebrill 2021 a 30 Mehefin 2021.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am nifer y cwynion a ddaeth i law, natur y cwynion, ac unrhyw wersi a ddysgwyd, yn ogystal â manylu ar ymholiadau gan Gynghorwyr, Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol a nifer y cwynion a ddaeth i law.

Yn dilyn trafodaethau yn ymwneud â'r adroddiad eithriedig, **PENDERFYNWYD**

1. Nodi cynnwys yr adroddiad a'r gwaith wedi ei gyflawni gan yr Uned Gwynion.

**25 ADRODDIADAU RHEOLIAD 73**

**PENDERFYNWYD** nodi'r adroddiad a ddarparwyd mewn perthynas ag ymweliadau Rheoliad 32 a gynhaliwyd yng nghartrefi plant - Beddau, Bryndâr, Carn Ingli a Nantgwyn a chroesawwyd manylion pellach mewn perthynas â chanlyniad yr arolygiad yn mhentref Beddau a'r ymateb gan y Cyngor.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.20pm**

**Y Cynghorydd C Leyshon**
**Cadeirydd**